

Adroddiad Arolygu ar gyfer Practis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Fusion Dentistry, Caerdydd

Dyddiad yr arolygiad: 23 Mehefin 2026

Dyddiad cyhoeddi: 23 Medi 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau amgen gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copi o bob adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu:

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80853-325-9

© Hawlfraint y Goron 2026



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein Diben

Rydym yn gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

Ein Gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Rydym yn:

Annibynnol – rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud.

Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth.

Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws.

Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith.

Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae ei angen fwyaf.

Ein Gweledigaeth

Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb.

Ein Blaenoriaethau

Rhoi Pobl yn Gyntaf – Byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd nawr ac yn y dyfodol.

Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd – Byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi gwelliannau parhaus.

Buddsoddi yn Ein Pobl – Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

Cymryd Camau sydd o Bwys – Byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ar gyfer dyfodol Cymru.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	10
	Ansawdd Profiad y Claf	10
	Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	14
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	18
4.	Y camau nesaf	21
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	22
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	23
	Atodiad C – Cynllun gwella	24



1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Fusion Dentistry, Caerdydd ar 23 Mehefin 2026.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac un adolygydd cymheiriaid clinigol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o chwe holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd dau gan y staff. Gall yr adborth a rhai o'r sylwadau a gawsom gan gleifion ymddangos yn yr adroddiad. Oherwydd y nifer isel o ymatebion gan staff, ni chafodd adborth na sylwadau eu cynnwys.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod cleifion yn nodi profiad gofal cadarnhaol iawn yn y practis. Roedd yr adborth a gafwyd yn nodi lefelau boddhad uchel, a nododd pob ymatebydd fod y gwasanaeth yn 'dda iawn'. Roedd y practis yn cael ei ddisgrifio'n gyson gan y cleifion fel amgylchedd hygyrch a glân iawn.

Roedd y cleifion yn canmol y gofal a'r cymorth roeddent yn eu cael gan y staff. Gwnaethant ddweud eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch, a bod y staff yn cymryd amser i wrando, esbonio triniaethau'n glir, ac ateb cwestiynau.

Gwelsom fod y practis yn darparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a nododd y cleifion eu bod wedi cael gwybodaeth lawn am yr opsiynau triniaeth, y risgiau a'r costau, a'u bod wedi cael cyngor ôl-ofal priodol. Roedd gwybodaeth am hybu iechyd ar gael, a chadarnhaodd y cleifion fod canllawiau ar gynnal iechyd y geg da yn cael ei ddarparu'n rheolaidd. Roedd y cofnodion a welsom yn dangos bod gofal yn cael ei deilwra at anghenion unigol, gan gynnwys ystyried hanes meddygol a dewisiadau cyfathrebu.

Roedd y practis yn cefnogi mynediad amserol at ofal, a nododd pob claf ei bod yn hawdd iawn cael apwyntiad. Roedd systemau ar waith i roi gwybod i'r cleifion am unrhyw achosion o oedi, ac roedd trefniadau ar gael ar gyfer gofal brys.

Gwelsom hefyd fod y practis yn cymryd camau i gefnogi cydraddoldeb a hygyrchedd. Roedd addasiadau'n cael eu gwneud ar gyfer cleifion ag anghenion ychwanegol, gan gynnwys mynediad heb risiau, gwasanaethau cyfieithu a fformatau gwybodaeth amgen.

Er bod y rhan fwyaf o'r wybodaeth i gleifion yn glir ac yn hygyrch, gwelsom fod y datganiad o ddiben ar gael yn yr ystafell aros i'r cleifion ei weld. Fodd bynnag, nid oedd ar gael ar wefan y practis, a allai ei gwneud yn anoddach i gleifion sy'n dymuno gweld y wybodaeth allweddol hon o bell.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Lanlwytho'r datganiad o ddiben i wefan y practis fel y gall cleifion weld gwybodaeth allweddol am y gwasanaeth yn hawdd

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd cleifion yn rhoi adborth cadarnhaol yn gyson
- Roedd y cleifion yn cael gwybodaeth dda am eu gofal, gan gynnwys opsiynau triniaeth, risgiau a chostau, ac roeddent yn cael cyngor ôl-ofal priodol i gefnogi

iechyd y geg da.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith yn y practis i helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Roedd y safle mewn cyflwr da, wedi'i gynllunio'n addas ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir, ac yn amlwg yn lân drwyddo draw. Roedd y cyfarpar deintyddol yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, roedd digon ohono ar gael, ac roedd yn cefnogi gofal clinigol diogel. Roedd gan y practis systemau addas hefyd ar gyfer parhad busnes, iechyd a diogelwch, cynnal a chadw cyfarpar, atal a rheoli heintiau, rheoli meddyginiaethau, diogelu a defnyddio cyfarpar pelydr-X yn ddiogel.

Roedd y practis yn amlwg yn lân, a dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur fod y practis yn lân iawn. Roedd yr ardal dihalogi yn drefnus iawn ac yn cynnwys digon o gyfarpar, ac roedd y staff wedi'u hyfforddi ac yn gymwys i ymgymryd â gweithdrefnau dihalogi. Roedd trefniadau profi, cynnal a chadw ac archwilio priodol ar waith yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Roedd gan y practis drefniadau rheoli meddyginiaethau priodol ar waith, gan gynnwys systemau ar gyfer archebu, storio, defnyddio a gwaredu meddyginiaethau yn ddiogel. Roedd meddyginiaethau a chyfarpar brys ar gael ac yn gyfredol, ac roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant perthnasol ar adfywio, gan gynnwys anaffylacsis.

Roedd trefniadau diogelu ar waith, gydag arweinydd diogelu dynodedig, polisïau perthnasol a Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar gael i'r staff. Roedd y staff yn gwybod sut i ymateb i bryderon diogelu, ac roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu lefel 2. Roedd yr arweinydd diogelu wrthi'n cwblhau'r hyfforddiant lefel 3 gofynnol.

Roedd gofal a thriniaeth yn cael eu darparu yn unol â chanllawiau proffesiynol, rheoliadol a statudol. Roedd rhestrau gwirio'r Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwithiol yn cael eu defnyddio ym mhob deintyddfa i gefnogi gofal mwy diogel. Roedd trefniadau addas ar waith yn y practis hefyd ar gyfer defnyddio dulliau tawelyddu ymwybodol yn ddiogel, gan gynnwys amgylchedd clinigol priodol, trefniadau adfer a staff hyfforddedig.

Roedd y cofnodion cleifion a welsom yn ystod yr arolygiad yn gynhwysfawr ac o safon uchel, yn enwedig ar gyfer achosion cymhleth a oedd yn cynnwys mewnbwn amlddisgyblaethol. Roedd cofnodion yn cael eu rheoli a'u cadw'n ddiogel yn unol â pholisïau priodol. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd unrhyw broses sefydledig ar waith i

olrhain atgyfeiriadau brys ar gyfer cleifion lle yr amheuwyd achos o ganser y geg er mwyn cadarnhau a oedd y cleifion wedi cael eu gweld gan wasanaethau ysbyty. Fodd bynnag, cymerodd y practis gamau yn dilyn yr arolygiad a chyflwynodd weithdrefn newydd i olrhain atgyfeiriadau brys ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i gleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cynnal amgylchedd a oedd yn amlwg yn lân ac yn drefnus, gyda threfniadau effeithiol ar gyfer atal a rheoli heintiau a dihalogi
- Roedd systemau i ddarparu gofal diogel ac effeithiol wedi ymsefydlu'n gadarn, gan gynnwys prosesau rheoli meddyginiaethau priodol, trefniadau diogelu, hyfforddiant staff a defnydd cyson o ganllawiau clinigol a rhestrau gwirio diogelwch.
- Roedd cofnodion cleifion yn gynhwysfawr ac o safon uchel.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod gan y practis drefniadau rheoli ac arwain effeithiol ar waith. Roedd strwythur rheoli clir ar waith, ynghyd â datganiad o ddiben a oedd wedi'i adolygu a systemau sefydledig ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a chyfathrebu â staff. Roedd y polisïau a'r gweithdrefnau yn cael eu cynnal, eu hadolygu'n rheolaidd a'u rhannu â'r staff ar ôl eu diweddarau.

Roedd gan y practis drefniadau addas ar waith i gefnogi prosesau recriwtio, hyfforddi a datblygu staff. Roedd cofnodion y staff yn dangos tystiolaeth o gofrestriadau proffesiynol, yswiriant indemniad a statws brechu priodol lle y bo'n berthnasol. Roedd cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol yn dda iawn, ac roedd y systemau ar gyfer monitro hyfforddiant a ffitrwydd i weithio yn effeithiol. Roedd y staff a oedd yn ymgymryd â dulliau tawelyddu ymwybodol wedi cael hyfforddiant priodol ac yn gymwys.

Roedd y practis yn mynd ati i ofyn am adborth gan gleifion ac yn ymateb iddo drwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys arolygon, ffurflenni wedi'u hargraffu, adborth llafar, cwynion ac adolygiadau ar-lein. Roedd poster "Dywedoch chi, gwnaethom ni" yn cael ei arddangos, i roi gwybod i'r cleifion sut roedd eu hadborth wedi cael ei ddefnyddio i wella'r gwasanaeth. Roedd cwynion yn cael eu cofnodi'n briodol, gan gynnwys pryderon llafar ac anffurfiol, ac roedd gan y practis bolisi Dyletswydd Gonestrwydd ar waith a oedd yn cyd-fynd â'r canllawiau cyfredol.

Roedd y practis yn defnyddio gweithgarwch archwilio, adborth, cyfarfodydd tîm, arfarniadau staff, digwyddiadau, cwynion ac arolygon staff i'w helpu i ddysgu a gwella ansawdd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Trefniadau llywodraethu ac arwain clir, ynghyd â systemau effeithiol ar gyfer rheoli risgiau, polisïau, gweithdrefnau a hysbysiadau diogelwch
- Roedd y staff yn cael eu cefnogi'n dda drwy gyfnod sefydlu, arfarniadau a hyfforddiant gorfodol
- Roedd yn mynd ati i ofyn am adborth gan gleifion, ac yn ymateb iddo, gan ddefnyddio cwynion, arolygon a gwybodaeth “Dywedoch chi, gwnaethon ni” i'w helpu i ddysgu a gwella.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Rhoddodd y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC adborth cadarnhaol iawn, a nododd pob ymatebydd fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn "dda iawn". Dywedodd pob un o'r cleifion fod y practis yn hygyrch ac yn "lân iawn" a'u bod o'r farn bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn.

Roedd y cleifion yn siarad yn gadarnhaol am eu gofal. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr eu bod wedi cael digon o wybodaeth am yr opsiynau triniaeth, bod y costau wedi cael eu hegluro cyn y driniaeth, a'u bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i gynnal iechyd y geg da. Roedd y cleifion hefyd yn cytuno bod y staff yn egluro eu gofal yn glir, yn gwrando arnynt ac yn ateb eu cwestiynau.

Dywedodd un claf:

"Roeddwn yn arbennig o nerfus ynghylch fy nhriniaeth, ac roedd y staff yn anhygoel. Gwnaethant i mi deimlo'n gyfforddus ac roeddent yn ofalgar iawn."

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion

Roedd y practis yn cefnogi'r cleifion i gynnal a gwella eu hiechyd y geg drwy ystod o adnoddau hybu iechyd llafar ac ysgrifenedig. Roedd taflenni a phosteri hybu iechyd y geg ar gael i'r cleifion, ac roedd cyngor ar iechyd y geg yn cael ei ddarparu fel mater o drefn yn ystod apwyntiadau clinig a'i atgyfnerthu drwy ffurflenni cydsynio, cyfarwyddiadau ar ôl llawdriniaethau a gwybodaeth wrth ryddhau cleifion.

Roedd cleifion a oedd yn cael triniaeth mewnbhaniadau yn cael dyfais fflosio dŵr, ynghyd â chyngor ac arweiniad ar sut i'w defnyddio, i'w helpu i lanhau'n effeithiol a chynnal a chadw eu mewnbhaniadau yn yr hirdymor. Roedd adolygiadau rheolaidd ar ôl triniaethau hefyd yn cael eu defnyddio fel cyfleoedd i atgyfnerthu gwybodaeth hybu iechyd y geg, gan gynnwys cyfarwyddiadau ar frwsio dannedd a chyngor ar gynnal hylendid y geg da yn dilyn triniaeth.

Roedd cleifion a oedd wedi cael tawelydd yn cael gwybodaeth am iechyd y geg ac ôl-ofal ar lafar ac yn ysgrifenedig. Roedd y wybodaeth hon hefyd yn cael ei rhannu â'u hebryngwyr, gan helpu i sicrhau bod cleifion yn cael cymorth priodol yn dilyn triniaeth a bod cyfarwyddiadau allweddol yn cael eu deall ar ôl yr apwyntiad.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y tîm deintyddol wedi rhoi cyfarwyddiadau ôl-ofal iddynt ar sut i gynnal iechyd y geg da.

Roedd gwybodaeth am gostau triniaethau ar gael ac yn cael ei hegluro i'r cleifion. Roedd enwau a manylion pob deintydd ac aelod o'r tîm deintyddol, ynghyd â'u rhifau cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, wedi'u harddangos mewn ardal lle y gallai'r cleifion eu gweld yn hawdd.

Gwnaethom edrych ar wefan y practis a nodwyd nad oedd y datganiad o ddiben ar gael.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y datganiad o ddiben ar gael ar wefan y practis.

Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith yn y practis i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch, a bod eu preifatrwydd yn cael ei gynnal yn ystod eu gofal a'u triniaeth. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo bod y staff yn y practis yn eu trin ag urddas a pharch.

Roedd y practis yn helpu i ddiogelu gwybodaeth am gleifion drwy gytundebau cyfrinachedd, a gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi'u llofnodi.

Gwelsom fod cyfleusterau addas ar gael i sicrhau preifatrwydd ar gyfer sgysiau cyfrinachol, gan gynnwys galwadau ffôn. Roedd cynllun yr ardaloedd clinigol a'r dderbynfa, a'r ffordd roeddent yn cael eu defnyddio, yn cynnig lefelau priodol o breifatrwydd i'r cleifion. Roedd drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cadw ar gau yn ystod triniaethau, a oedd yn helpu i sicrhau preifatrwydd ac urddas y cleifion wrth iddynt gael gofal.

Gwelsom hefyd fod 'naw egwyddor' safonau moesegol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn cael eu harddangos yn y practis.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion pum claf a gwelsom fod manylion adnabod priodol wedi'u cofnodi ar gyfer y cleifion.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo bod y tîm deintyddol wedi'u helpu i ddeall yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael iddynt pan oedd angen. Dywedodd y cleifion wrthym hefyd fod esboniadau yn cael eu rhoi iddynt yn ystod eu hapwyntiadau mewn ffordd y gallent ei deall.

Cadarnhaodd y cleifion fod eu hanesion meddygol yn cael eu gwirio cyn iddynt gael triniaeth. Roedd hyn yn gyson â'r hyn a welsom yng nghofnodion y cleifion, lle roedd tystiolaeth bod hanesion meddygol yn cael eu gwirio a'u cofnodi'n rheolaidd.

Roedd pob un o'r cleifion a ymatebodd i'r holiadur yn cytuno eu bod yn cael digon o wybodaeth i ddeall risgiau a manteision yr opsiynau triniaeth. Dywedodd y cleifion hefyd fod costau triniaethau wedi cael eu cyfleu'n glir iddynt cyn iddynt gael gofal.

Amserol

Gofal amserol

Gwelsom fod trefniadau ar waith yn y practis i helpu'r cleifion i gael gofal a thriniaeth pan oedd eu hangen arnynt. Disgrifiodd y staff broses ar gyfer rhoi gwybod i'r cleifion am amseroedd aros ac unrhyw achosion o oedi i'w hapwyntiadau.

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur ei bod yn 'hawdd iawn' cael apwyntiad pan oedd angen un.

Roedd gwybodaeth yn cael ei darparu i'r cleifion am sut i gael gafael ar wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau. Gwelsom fod gwybodaeth gyswllt y tu allan i oriau hefyd ar gael drwy neges peiriant ateb y practis, ar wefan y practis ac yn y daflen wybodaeth i gleifion. Dywedodd 4 o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai problem ddeintyddol frys yn codi. Fodd bynnag, dywedodd dau glaf nad oeddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth hwn.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Roedd gan y practis drefniadau ar waith i ddiwallu anghenion cyfathrebu cleifion a'u helpu i gael gofal. Gwelsom dystiolaeth yng nghofnodion y cleifion a welsom fod eu dewisiadau iaith yn cael eu cofnodi.

Gwybodaeth ysgrifenedig Saesneg oedd yn cael ei harddangos yn y practis ac ar y wefan yn bennaf. Fodd bynnag, i gleifion nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf, roedd gwasanaeth cyfieithu priodol ar gael i'r practis.

Gallai'r cleifion drefnu apwyntiadau naill ai wyneb yn wyneb yn y dderbynfa neu dros y ffôn. Roedd hyn yn helpu i sicrhau bod cleifion heb fynediad at ddyfeisiau digidol, neu gleifion roedd yn well ganddynt beidio â defnyddio systemau ar-lein, yn dal i allu trefnu apwyntiadau a chael triniaeth. Nid oedd y practis yn cynnig cyfleuster trefnu apwyntiadau ar-lein ar adeg yr arolygiad.

Dywedodd y staff wrthym y gellid darparu gwybodaeth mewn fformatau amgen, megis ieithoedd gwahanol neu brint bras, lle bo angen.

Hawliau a chydraddoldeb

Roedd cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu hyrwyddo drwy bolisi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant y practis a hyfforddiant gorfodol i'r staff. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod y staff yn trin pob claf yn deg a bod y practis yn defnyddio nifer o systemau adborth i helpu i nodi anghenion a phrofiadau cleifion ac ymateb iddynt.

Roedd gan y practis bolisiau ar waith i amddiffyn y cleifion a'r staff rhag achosion o wahaniaethu, aflonyddu a thriniaeth annheg, gan gynnwys mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

Roedd addasiadau rhesymol ar waith i gefnogi cleifion ag anghenion mynediad a chyfathrebu gwahanol. Roedd yr enghreifftiau yn cynnwys mynediad heb risiau o'r stryd i ddeintyddfa ar y llawr gwaelod i gleifion ag amhariadau symudedd neu bobl sy'n defnyddio cadair olwyn, gwasanaethau cyfieithu, ac addasu gwybodaeth wedi'i hargraffu i gefnogi claf â dyslecsia.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Gwelsom fod y safle mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Roedd maint a chynllun y practis yn addas ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir, ac roedd maint yr ystafell aros yn briodol ar gyfer nifer y deintyddfeydd. Roedd digon o gyfleusterau newid a storio ar gael i'r staff. Roedd y toiledau'n lân ac yn cynnwys unedau gwaredu eitemau mislif a chyfleusterau golchi a sychu dwylo, ac roedd arwyddion i gyfeirio'r cleifion iddynt.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod y cyfarpar deintyddol mewn cyflwr da a bod digon ohono i allu ymgymryd â phrosesau dihalogi effeithiol ar ôl ei ddefnyddio. Nodwyd hefyd fod cyfarpar a gynlluniwyd i hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol, megis dyfeisiau ailorchuddio nodwyddau, yn cael ei ddefnyddio.

Roedd gan y practis gynllun parhad busnes cynhwysfawr ar waith. Gwnaethom edrych ar ddogfennaeth a chadarnhau bod asesiad risg iechyd a diogelwch wedi'i gwblhau ar gyfer y gweithle. Gwelsom hefyd ardystiad dilys ar gyfer gwiriadau diogelwch nwy, profion offer cludadwy (PAT) ac archwiliad o'r gosodiadau trydanol bob pum mlynedd. Roedd tystysgrifau yswiriant atebolrwydd cyflogwr ac atebolrwydd cyhoeddus dilys wedi'u harddangos, ynghyd â phoster iechyd a diogelwch wedi'i gwblhau.

Roedd trefniadau diogelwch tân ar waith. Roedd y practis wedi cynnal asesiad risg tân cyfredol yn ddiweddar. Gwnaethom gydnabod mai yn ystod yr arolygiad y daeth dogfen yr asesiad risg tân i law, gan olygu nad oedd y practis wedi cael cyfle eto i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC am gynnydd yn erbyn y camau gweithredu a nodwyd yn yr asesiad risg tân, gan gynnwys amserlenni ar gyfer cwblhau unrhyw gamau sy'n weddill.

Roedd gan y practis gcontract cynnal a chadw cyfarpar diogelwch tân ar waith, ac roedd tystiolaeth bod y cyfarpar canfod tân yn cael ei brofi'n rheolaidd. Roedd diffoddwyr tân ar gael ym mhob rhan o'r adeilad, ac roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelwch tân. Roedd posteri gweithredu mewn ymateb i dân wedi'u harddangos, yn rhoi cyfarwyddiadau am yr hyn i'w wneud pe bai tân.

Roedd y practis wedi cymryd camau i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ar fangreoedd di-fwg. Roedd arwyddion 'Dim Smygu' yn cael eu harddangos yn yr adeilad, a oedd yn cadarnhau bod y practis yn hyrwyddo amgylchedd di-fwg.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd gan y practis drefniadau effeithiol ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau a dihalogi. Gwelsom fod pob ardal o'r gwasanaeth yn lân yr olwg. Roedd yr adborth gan

gleifion hefyd yn ategu'r canfyddiad hwn, gyda phob claf a gwblhaodd yr holiadur yn nodi bod y practis yn 'lân iawn'. Roedd amserlen lanhau effeithiol ar waith er mwyn helpu i lanhau pob rhan o'r practis yn rheolaidd.

Roedd y trefniadau hylendid dwylo yn briodol ac yn effeithiol, ac roedd cyfleusterau hylendid dwylo addas ar gael. Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff ac yn cael ei ddefnyddio a'i newid yn briodol. Roedd amgylchedd y practis yn cefnogi trefniadau atal a rheoli heintiau effeithiol, ac roedd arweinydd atal a rheoli heintiau dynodedig yn y practis i oruchwylio'r trefniadau hyn. Roedd cymorth iechyd galwedigaethol addas ar gael i'r practis hefyd.

Roedd gan y practis ardal ddynodedig ar y llawr gwaelod ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol. Roedd y cyfleuster dihalogi yn lân iawn, yn drefnus ac yn cynnwys adnoddau digonol.

Roedd y ddogfennaeth a welsom yn ystod yr arolygiad yn cadarnhau bod profion rheolaidd yn cael eu cynnal ar awtoclafau, glanhawyr uwchsain a pheiriannau golchi a diheintio yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Roedd rhaglen cynnal a chadw ddyddiol ar waith, ac roedd rhestrau gwirio dyddiol yn cael eu cwblhau ar gyfer pob deintyddfa. Roedd awtoclafau'n cael eu defnyddio'n ddiogel ac yn effeithiol, a gwelsom gynllun cynnal a chadw cyfredol a thystysgrif arolygu cyfredol.

Roedd y cofnodion hyfforddiant a welsom yn dangos bod y staff wedi cael hyfforddiant a'u bod yn gymwys mewn perthynas â phrotocolau dihalogi. Roedd archwiliad rheoli heintiau wedi cael ei gwblhau gan ddefnyddio canllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Roedd contractau ar waith yn y practis ar gyfer gwaredu gwastraff. Gwelsom fod gwastraff clinigol yn cael ei reoli'n briodol ac yn ddiogel.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd polisi rheoli meddyginiaethau priodol ar waith. Roedd wedi'i ategu gan weithdrefnau a threfniadau ar gyfer archebu, cofnodi, trin, defnyddio, cadw'n ddiogel, cyflenwi, rhoi a gwaredu meddyginiaethau a ddefnyddir yn y practis yn ddiogel. Ar gyfer meddyginiaethau yr oedd angen eu cadw mewn oergell, roedd gan y practis oergell feddyginiaethau ddynodedig. Roedd system ar waith ar gyfer gwirio a chofnodi tymheredd yr oergell yn rheolaidd. Roedd y staff a oedd yn ymwneud â rhoi a monitro meddyginiaethau ar gyfer tawelyddu ymwybodol wedi cael hyfforddiant priodol ac yn gymwys.

Roedd gan y practis bolisi a threfniadau ar waith ar gyfer rheoli argyfyngau meddygol ac adfywio. Roedd y polisi hwn yn seiliedig ar ganllawiau cenedlaethol cyfredol ar adfywio. Gwnaethom edrych ar bum ffeil staff a gwelsom fod pob aelod o'r staff yn y ffeiliau hynny wedi cael hyfforddiant cyfredol ar adfywio cardiopwlmonaidd (CPR), gan gynnwys rheoli anaffylacsis.

Roedd y meddyginiaethau brys a oedd ar gael yn y practis yn cyd-fynd â chanllawiau

cenedlaethol, a gwelsom hefyd fod cyffuriau brys priodol ar gael ar gyfer cleifion a oedd yn cael tawelydd ymwybodol mewnwythiennol. Roedd y meddyginiaethau brys a'r eitemau cymorth cyntaf yn gyfredol. Roedd pecyn cymorth cyntaf ar gael yn y practis, ac roedd trefniadau cymorth cyntaf priodol ar waith, wedi'u hategu gan saith aelod o staff a oedd wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf.

Roedd cyfarpar adfywio digonol ar gael yn y practis, ac roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant priodol ar sut i ddefnyddio silindrau ocsigen.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd gan y practis drefniadau addas ar waith i ddiogelu plant ac oedolion rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod. Roedd arweinydd diogelu dynodedig yn y practis ac roedd yn goruchwyllo materion diogelu. Roedd polisïau a gweithdrefnau diogelu priodol ar gael, ac roedd Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar gael i'r staff i'w helpu i ddeall eu cyfrifoldebau diogelu a'r gofynion o ran rhoi gwybod am bryderon.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gwybod pwy y dylid cysylltu â nhw pe bai ganddynt bryder diogelu. Gwnaethant hefyd ddisgrifio ymwybyddiaeth o'r camau y byddent yn eu cymryd i nodi honiadau neu bryderon yn ymwneud â chamdriniaeth, ymateb iddynt a rhoi gwybod amdanynt.

Wrth edrych ar y cofnodion hyfforddiant cadarnhawyd bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu plant ac oedolion hyd at lefel 2. Ar adeg yr arolygiad, roedd yr arweinydd diogelu wrthi'n cwblhau'r hyfforddiant lefel 3 gofynnol. Darparwyd tystiolaeth ei fod wedi cwblhau'r hyfforddiant yn dilyn yr arolygiad.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Canfuwyd bod y cyfarpar clinigol yn ddiogel, mewn cyflwr da ac yn addas at y diben y'i defnyddiwyd ar ei gyfer. Roedd amserlen cynnal a chadw ac arolygu ar waith ar gyfer y cywasgydd, ac roedd y cofnodion yn cadarnhau ei fod wedi cael ei wasanaethu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Roedd y cyfarpar pelydr-X mewn cyflwr da ac yn gweithio'n iawn. Roedd trefniadau ar waith i helpu'r staff i ddefnyddio'r cyfarpar pelydr-X yn ddiogel, gan gynnwys gwaith cynnal a chadw priodol a hyfforddiant staff. Roedd cofnodion hyfforddiant y staff yn cadarnhau bod aelodau perthnasol o'r tîm wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf yn unol â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol).

Gwelsom dystiolaeth bod archwiliadau radiograff wedi'u cynnal. Roedd gwybodaeth yn egluro manteision a risgiau dod i gysylltiad â phelydr-X ar gael i'r cleifion yn yr ardal aros.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Gwnaeth y ddogfennaeth a welsom a'n trafodaethau â'r staff gadarnhau bod y practis yn dilyn canllawiau proffesiynol, rheoliadol a statudol perthnasol wrth ddarparu gofal. Gwelsom dystiolaeth bod systemau priodol ar waith i helpu i dderbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin yn ddiogel, a oedd yn cyd-fynd â'r safonau cydnabyddedig.

Gwelsom fod rhestrau gwirio'r Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwithiol yn cael eu defnyddio ym mhob deintyddfa.

Roedd trefniadau addas ar waith yn y practis ar gyfer defnyddio dulliau tawelyddu ymwybodol yn ddiogel. Gwelsom fod yr amgylchedd a oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer tawelyddu ymwybodol yn briodol ac yn cefnogi gofal diogel. Roedd y ddeintyddfa o faint digonol i gefnogi triniaethau, adferiad y claf ac i reoli argyfyngau meddygol yn effeithiol.

Roedd lleoliad a chynllun yr adeilad yn hwyluso mynediad diogel pe bai argyfwng. Roedd hyn yn cynnwys mynediad heb risiau a digon o le i ambiwlans, pe bai angen.

Roedd y cleifion yn gallu adfer yn ddiogel cyn cael eu rhyddhau. Roedd ystafell adfer bwrpasol ar gael, ac roedd modd sicrhau preifatrwydd yn yr ardal drin a'r ardal adfer.

Cofnodion cleifion

Roedd y pum cofnod cleifion a welsom yn ymwneud yn bennaf â thriniaeth gymhleth lle roedd angen mewnbwn gan dîm amlddisgyblaethol. Gwelwyd bod y cofnodion yn gynhwysfawr ac o safon uchel.

Roedd polisi a system rheoli cofnodion priodol ar waith i sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu rheoli'n ddiogel. Roedd cofnodion cleifion cyfredol a blaenorol yn cael eu storio'n ddiogel yn unol â gofynion diogelu data. Roedd cofnodion hefyd yn cael eu cadw yn unol â pholisïau cadw priodol.

Ar adeg yr arolygiad, nid oedd unrhyw drefniant sefydledig ar waith i olrhain cleifion a oedd wedi cael eu hatgyfeirio ar frys i'r ysbyty gan fod amheuaeth o achos o ganser y geg, er mwyn cadarnhau a oeddent wedi cael eu gweld. Fodd bynnag, yn dilyn yr arolygiad, rhoddodd y practis bolisi a gweithdrefn newydd ar waith i fynd i'r afael â hyn.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Roedd gan y practis strwythur rheoli clir ac effeithiol i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau. Roedd datganiad o ddiben ysgrifenedig ar waith, a oedd yn cynnwys y wybodaeth ofynnol ac a oedd wedi cael ei adolygu o fewn y flwyddyn ddiwethaf.

Dywedodd y staff wrthym fod adnoddau datblygu tîm yn cael eu defnyddio yn y practis, gan helpu'r staff i ddysgu a datblygu. Gwelsom dystiolaeth bod cyfarfodydd tîm rheolaidd yn cael eu cynnal, a bod cofnodion cyfarfodydd yn cael eu rhannu â'r aelodau o'r staff nad oeddent yn gallu bod yn bresennol a'u storio o fewn system rhannu ffeiliau er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r tîm yn cael y wybodaeth ddiweddaraf.

Roedd gan y practis drefniadau clir a chynhwysfawr ar gyfer nodi, cofnodi a rheoli risgiau, problemau a chymau lliniaru. Roedd proses gadarn hefyd ar gyfer rhoi argymhellion ar waith a rhannu gwybodaeth berthnasol yn fewnol o hysbysiadau diogelwch, gan gynnwys hysbysiadau gan sefydliadau megis yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd neu Lywodraeth Cymru.

Roedd y practis yn cadw cofrestr o bolisiâu a gweithdrefnau. Roedd y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u cyfleu i'r staff. Roedd y staff yn cael hysbysiadau pan oedd polisiâu neu weithdrefnau wedi cael eu diweddarau, gan helpu i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn ymwybodol o'r gofynion a'r canllawiau ymarfer cyfredol.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Roedd gan y practis drefniadau addas ar waith i sicrhau bod staff yn cael eu recriwtio'n briodol a'u cefnogi a'u galluogi i gyflawni eu rolau'n ddiogel ac yn effeithiol. Roedd polisiâu a gweithdrefnau yn disgrifio'r broses recriwtio a'r gwiriadau sy'n ofynnol ar gyfer darpar gyflogeion yn glir, gan gynnwys gwirio manylion adnabod, cymwysterau a thystiolaeth o statws brechu.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion 5 aelod o'r staff a gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, bod ganddynt yswiriant indemnïad proffesiynol a'u bod wedi'u brechu'n briodol rhag Hepatitis B, lle y bo'n berthnasol.

Roedd cydymffurfiaeth dda iawn â'r gofynion o ran hyfforddiant gorfodol. Roedd y systemau a oedd ar waith i fonitro'r cyfraddau cwblhau hyfforddiant yn effeithiol ac yn helpu i oruchwylio anghenion hyfforddiant y staff. Gwelsom hefyd fod trefniadau addas ar waith i fonitro a chynnal rhwymedigaethau proffesiynol y staff o ddechrau eu

cyflogaeth. Roedd y cofnodion staff a welsom yn cynnwys cofrestriadau cyfredol â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gwiriadau geirdaon cyn cyflogi.

Gwelsom fod system fonitro gadarn ar waith i gynnal gofynion addasrwydd i weithio pob cyflogai. Roedd gan bob aelod o'r staff a oedd yn gweithio yn y practis gontract cyflogaeth ac roedd rhaglen sefydlu ar waith. Roedd y rhaglen sefydlu yn cynnwys hyfforddiant, polisïau a gweithdrefnau perthnasol i helpu'r staff i ddeall eu cyfrifoldebau. Roedd arfarniadau staff wedi cael eu cynnal hefyd.

Roedd y staff a oedd yn ymwneud â defnyddio dulliau tawelyddu ymwybodol wedi cael eu hyfforddi'n briodol ac yn gymwys i gyflawni eu rolau. Roedd nyrs dawelyddu arbenigol ac anesthetydd yn gyfrifol am ddefnyddio dulliau tawelyddu ymwybodol, ac roedd cymorth nyrsio deintyddol ychwanegol ar gael yn ôl yr angen.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd cleifion yn gallu rhoi adborth drwy amrywiaeth o ddulliau. Roedd ffurflenni adborth wedi'u hargraffu ar gael, ac roedd y practis hefyd yn casglu adborth drwy arolygon ar ôl triniaethau. Roedd adborth llafar yn cael ei annog, a gallai'r cleifion fynegi pryderon drwy'r broses gwyno. Roedd y practis yn monitro adolygiadau ar-lein ac yn ymateb iddynt.

Disgrifiodd rheolwr y practis sut roedd adborth o ffynonellau gwahanol yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Gwelsom enghraifft addas o gamau a gymerwyd mewn ymateb i sylwadau gan glaf. Roedd gwybodaeth yn dangos sut roedd y practis wedi dysgu a gwella yn sgil adborth a gafwyd wedi'i harddangos yn ardal aros y cleifion drwy boster "Dywedoch chi, gwnaethom ni".

Roedd gweithdrefn gwyno ysgrifenedig ar waith yn y practis. Roedd y weithdrefn hon ar gael i'r cleifion yn yr ardal aros heb iddynt orfod gofyn am gopi. Roedd manylion am y broses gwyno hefyd wedi'u cynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion, y datganiad o ddiben ac ar wefan y practis. Roedd aelod dynodedig o'r tîm yn gyfrifol am ymdrin â chwynion, ac roedd y wybodaeth hon i'w gweld ar y wefan, wedi'i chynnwys yn y polisi cwynion, ac wedi'i harddangos o amgylch y practis. Roedd y cofnodion yn dangos bod cwynion yn cael eu cofnodi'n briodol, gan gynnwys pryderon llafar neu anffurfiol.

Gwelsom hefyd fod gan y practis bolisi Dyletswydd Gonestrwydd ar waith a oedd yn cyd-fynd â'r canllawiau cyfredol.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd y practis yn defnyddio amrywiaeth o systemau er mwyn helpu i wella ansawdd. Dywedodd y staff wrthym fod trefniadau gwella ansawdd yn cael eu monitro drwy weithgarwch archwilio, adborth gan gleifion, cyfarfodydd tîm, polisïau ac arfarniadau staff. Gwelsom dystiolaeth hefyd fod y practis yn monitro ac yn ymateb i gŵynion, adborth gan gleifion, digwyddiadau, gweithgarwch archwilio ac arolygon staff, ac yn gwneud gwelliannau i ymarfer o ganlyniad iddynt. Efallai yr hoffai'r practis ystyried cyflwyno gweithgarwch adolygu gan gymheiriaid fel ffordd ychwanegol o gefnogi dysgu ar y cyd a gwelliant parhaus.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen ymdrin â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Fusion Dentistry

Dyddiad yr arolygiad: 23 Mehefin 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Canfyddiadau		Ni nodwyd unrhyw faterion uniongyrchol yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.	
Yr hyn sydd angen ei wella		Safon / Rheoliad	
Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth:		Swyddog cyfrifol	Amserlen

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Fusion Dentistry

Dyddiad yr arolygiad: 23 Mehefin 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Gwnaethom edrych ar wefan y practis a nodwyd nad oedd y datganiad o ddiben ar gael.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y datganiad o ddiben ar gael ar wefan y practis.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 5.	Gofynnwyd i'n dylunwyr gwe, Digimax, ddiweddarau'r wybodaeth hon ar ein gwefan.	Rheolwr Gweithrediadau.	Gofynnwyd am hyn ar 04/08/26 ac maent wedi cydnabod y cais. Maent fel arfer yn gweithredu ar geisiadau o fewn 48 awr, felly mae'n debygol y bydd y wybodaeth ar y wefan o fewn y terfyn amser, sef 07/08/26.

2.	Daeth dogfen yr asesiad risg tân i law yn ystod yr arolygiad, gan olygu nad oedd y practis wedi cael cyfle eto i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC am gynnydd yn erbyn y camau gweithredu a nodwyd yn yr asesiad risg tân, gan gynnwys amserlenni ar gyfer cwblhau unrhyw gamau sy'n weddill.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 – Rheoliad 22, Rheoliad 16.	Cafwyd dyfynbris i fynd i'r afael â'r holl faterion a nodwyd yn ystod yr asesiad risg tân, a threfnwyd i'r gwaith gael ei gwblhau ar 24/08/26. Mae'r dyfynbris wedi cael ei lanlwytho i Objective Connect. Mae'r cynllun ar gyfer gwagio'r adeilad os bydd tân wedi'i gwblhau, ac mae'r arwyddion ar gyfer y drysau tân hefyd wedi'u gosod yn y practis.	Rheolwr Gweithrediadau.	Bydd y gwaith yn cael ei gwblhau ar 24/08/26 a bydd ymweliad dilynol yn cael ei drefnu os na chaiff yr holl gamau gweithredu eu cwblhau mewn un ymweliad.
----	--	--	---	--	-------------------------	---

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth: R Gleeson

Enw (priflythrennau): Rachel Gleeson

Swydd: Rheolwr y Practis a Gweithrediadau

Dyddiad: 04/08/2026